BBC
Bitesize

# CA3 Cymraeg – Nodweddion iaith hysbyseb

## Gweithgaredd 1

## Atebion

- Mae **berfau gorchmynnol** (ee gyrrwch, cysylltwch) yn cael eu defnyddio i gynnig cyfarwyddyd i'r darllenydd.
- Defnyddir **ansoddeiriau atyniadol** (ee braf, heulog) yn yr hysbyseb er mwyn ennyn a denu diddordeb y darllenydd.
- Cyflwynir **gwybodaeth ddefnyddiol a pherswadiol** a'i **rhestru** ('stafell braf, heulog gyda gwely dwbl, desg a chwpwrdd dillad...deng munud o ganol y ddinas) er mwyn hysbysu a pherswadio.
- Mae'r hysbyseb yn **cyfarch** y darllenydd yn uniongyrchol (ee Helô! Mae tri o bobl...) er mwyn creu ymdeimlad o agosatrwydd a chyfeillgarwch.
- Mae'r hysbyseb wedi'i **thargedu at gynulleidfa** benodol (ee ...rhywun 20-25 mlwydd oed).


© BBC